

Medi

Yn ôl i'r ysgol â chi, ac rwyf i allan yn edrych ar y mamogiaid i wneud yn siŵr eu bod yn ddigon iach i gael oen. Pan fyddaf i'n hapus, caiff y mamogiaid gyfarfod â'r hyrddod.

September

Back to school for you, and I'm out checking the ewes to make sure they are healthy to have a lamb. Once I'm happy, the ewes get to meet the rams.

Hydref

Bydd y mamogiaid a'r hyrddod gyda'i gilydd am ryw 8 wythnos i sicrhau nad yw'r cyfnod wyna'n rhy hir. Mae hyn yn helpu gydag amseru brechiadau, bwydo, diddyfnu ac ati.

October

The ewes and rams will be together for about 8 weeks to ensure lambing isn't too spread out. This helps with timing of vaccinations, feeding, weaning etc.

Tachwedd

Erbyn hyn gobeithio y bydd y mamogiaid yn feichiog, felly aiff yr hyrddod i'w cae gaeaf.

November

By now I hope the ewes are pregnant, and so the rams are taken to their winter field.

Rhagfyr i Ionawr

Mae'r milfeddyg yn ymweld â'r holl famogiaid ar y fferm i wneud yn siŵr eu bod yn feichiog ac yn iach. Caiff y defaid eu sganio i ragweld faint o ŵyn a gaiff eu geni.

December to January

The vet visits all the ewes on the farm to check they're pregnant and healthy. The sheep are scanned to predict how many lambs will be born.

Chwefror i Mawrth

Bydd y mamogiaid yn cael eu hŵyn yn fuan. Rwy'n gwneud yn siŵr eu bod nhw'n hapus, yn iach ac yn gryf.

February to March

The ewes will be having their lambs soon. I make sure that they are all happy, healthy and strong.

Mawrth i Ebrill

Geni'r ŵyn bach! Mae'r rhan fwyaf o famogiaid yn cael un neu ddau oen, ond bydd rhai'n cael hyd at bedwar. Mae hwn yn gyfnod pwysig iawn i'r teulu – mae pawb wrthi'n helpu o fore gwyn tan nos!

March to April

The lambs are born! Most ewes have one to two lambs each, but some might have up to four. This is a very busy time for all the family - all hands on deck, morning, noon and night!

Mai

Erbyn mis Mai, mae'r mamogiaid a'u hŵyn yn pori yn y caeau, gyda'r ffermwyr yn cadw golwg fanwl ar dwf pob oen. Yn ystod yr 8 wythnos gyntaf, mae oen yn tyfu tua 250g bob dydd.

May

By May, the ewes and their lambs are grazing the fields, with the farmer keeping a keen eye on the daily growth rate of each lamb. Within the first 8 weeks, a lamb grows around 250g per day.

Mehafin

Wrth i'r ŵyn fynd yn hŷn, maen nhw'n bwyta mwy o laswellt ac yn dibynnu llai ar laeth eu mam. Mae cyfnod cneifio'n dechrau nawr, gyda'r ffermwyr yn cneifio gwllân y mamogiaid i sicrhau nad ydyn nhw'n rhy boeth dros yr haf.

June

As the lambs get older, they will begin to eat more grass and rely less on their mothers' milk. Shearing season begins now, where farmers shear the ewes' wool off to ensure they don't get too hot over the summer.

Gorffennaf i Awst

Dros yr haf mae'r ŵyn yn tyfu'n fwy ac yn dewach ar y borfa. Mae eu mamau, sydd wedi gweithio'n galed drwy'r flwyddyn yn magu'r ŵyn, o'r diwedd yn cael ymlacio. Caiff rhai ŵyn eu gwerthu pan fyddan nhw'n 35-40kg, tra bo eraill yn cael eu cadw i fridio yn y dyfodol.

July to August

Over the summer, the lambs get bigger and fatter on grass. Their mothers, who have worked very hard all year rearing the lambs, now have time to relax. Some lambs will be sold at 35-40kg, whilst others might be kept to breed in the future.

Rwyf allan drwy'r drws erbyn 5.30am gyda Meg i ofalu am y defaid. Dyma fraislun o fy mlwyddyn...

I'm out the door by 5:30am with Meg to look after my sheep. Here's a snapshot of what my year looks like...

